**Panel Adolygu Arbenigol: Cyfarfod 3**

**Cofnodion y Cyfarfod**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 25 Hydref 2022

**Yn bresennol:**
**Cadeirydd:** Yr Athro Suzanne Fitzpatrick (Prifysgol Heriot-Watt).

**Aelodau:** Matt Downie (Crisis), Liz Davies KC (Siambrau Garden Court), Yr Athro Peter Mackie (Prifysgol Caerdydd), Jennie Bibbings (Shelter Cymru), Katie Dalton (Cymorth Cymru), Jim McKirdle (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Angela Bowen (Cyngor Sir Gaerfyrddin), Clarissa Corbisiero (Cartrefi Cymunedol Cymru), Nazia Azad (Tai Pawb), Hannah Fisher (Llywodraeth Cymru), Huw Charles (Llywodraeth Cymru).

**Hefyd yn bresennol:** Jordan Brewer (Crisis), Abi Renshaw (Crisis), Debbie Thomas (Crisis), Ashleigh Stevens (Cyngor Conwy), Stevie Powell (Llywodraeth Cymru).

**Ymddiheuriadau:** Sam Parry (Cyngor Conwy).

1. **Croeso, cyflwyniadau, cofnodion a phapurau ychwanegol**

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r panel i drydydd cyfarfod y Panel Adolygu Arbenigol, a wahoddwyd cyflwyniadau.

*Cylch Gorchwyl: Cytunwyd nad oedd unrhyw sylwadau pellach i'w cyflwyno ynghylch y Cylch Gorchwyl.*

*Cynllun gwaith*: Mae'r bylchau a godwyd yn y cyfarfod diwethaf wedi'u hymgorffori yn y cynllun gwaith. Bydd y pynciau llety dros dro, addasrwydd, cymhwyster yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf. Bydd y cyfarfod olaf yn cwmpasu gorfodi rheoliadau. Cynhelir cyfarfod adolygu ym mis Ionawr 2023. Cytunwyd nad oedd unrhyw sylwadau pellach ynghylch y Cynllun gwaith.

*Cofnodion cyfarfod 2*: I'w diwygio i gynnwys eglurder ar deimladau cryf y panel ar ddileu methiant afresymol i gydweithredu. I'w dosbarthu.

Bydd nodyn cyngor cyfreithiol ar gymhwyster yn cael ei ddosbarthu cyn y cyfarfod nesaf, er mwyn i'r panel adlewyrchu arno yn y drafodaeth nesaf.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Jordan Brewer | Crisis i ddiwygio cofnodion cyfarfod 2 i adlewyrchu'r sylwadau pellach. | Ar unwaith |
| Liz Davies | Y papur cyngor ar agweddau cyfreithiol i'w ddosbarthu cyn y cyfarfod nesaf ar y pynciau i'w trafod. | 15.11.2022 |

2. **Diweddariad gan Lywodraeth Cymru**

Rhoddodd HF ddiweddariad byr gan Lywodraeth Cymru, yn amlinellu bod:

- Y Senedd wedi pasio deddfwriaeth sy'n ychwanegu'r rhai sy'n ddigartref ac ar y stryd fel 11eg categori o angen blaenoriaeth. Cyhoeddwyd canllawiau ategol ar hyn.

- Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar orchymyn addasrwydd ynghylch y terfynau amser cyfreithiol ar gyfer lletya mewn darpariaeth Gwely a Brecwast. Mae swyddogion polisi yn parhau i weithio ar hyn, ond mae'n dod i'r amlwg nad yw'r cynigion yn ymarferol gyda'r galw presennol ar lety dros dro o ganlyniad i argyfwng Wcráin a'r cyflenwad o dai.
- Mae swyddogion yn gweithio i ymgynghori â grwpiau â nodweddion gwarchodedig a gyda Plant yng Nghymru i gynorthwyo gwaith y panel, ac mae'r olaf yn gwneud cynnydd da.

| Aelod(au) y Panel | Cam gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Hannah Fisher | Yn niweddariad Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod nesaf, rhoi sylwadau ar:<br>• Ffyrdd i symud ymlaen o ran atodiad y Cod Canllawiau, y gorchymyn addasrwydd a Dyrannu Llety a Digartrefedd.<br>• Sicrhau ffrwd waith sy'n ymroddedig i nodweddion gwarchodedig.<br>• Ymgysylltiad rhanddeiliaid â phlant a phobl ifanc. | Y cyfarfod nesaf, 22.11.2022 |
| Pawb | Adborth i Hannah Fisher ynghylch ei diweddariad, yn benodol ynghylch nodi bylchau o fewn ymgysylltiad rhanddeiliaid. | 15.11.2022<br>1 wythnos cyn y cyfarfod nesaf |

3. **Diweddariadau ar bynciau a nodwyd ar gyfer ystyriaeth gyfreithiol**

Rhoddodd LD drosolwg o'i phapur cyngor, a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Pwysleisiodd bod y pwyntiau pennawd ym mharagraff 5 y papur.

Gellir cyflwyno argymhellion y panel fel diwygiad o ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 neu fel deddfwriaeth annibynnol newydd gyda rhan o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn cael ei diddymu.

Roedd y diweddariad yn cwmpasu chwe maes o argymhellion allweddol a amlinellwyd yn y papur cyngor, gyda'r pwyntiau allweddol canlynol:

a. **Ystyried sut i wneud y diffiniad o "camau rhesymol" (A.65 Deddf Tai Cymru 2014) yn fwy cadarn.**

Roedd tri opsiwn yn cynnwys:

- Edrych ar ffurf wahanol o'r term, megis camau addas, neu ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i sicrhau llety. Fodd bynnag, nodwyd efallai na fydd y fformwleiddiadau hynny yn gwneud llawer o wahaniaeth i ddehongliad barnwr.
- Y dull gweithredu yn neddfwriaeth Lloegr yw ymgorffori asesiad o angen yn y ddeddf a gofyniad i lunio Cynllun Tai Personol yn seiliedig ar yr asesiad o angen hwnnw. Mae'r Cynllun Tai Personol yn nodi'r camau rhesymol y bydd Awdurdod Lleol yn eu cymryd.
- Gellir gwneud diwygiad posibl i'r ddyletswydd rhyddhad yn neddfwriaethau presennol Cymru, sy'n dod i ben ar ôl 56 diwrnod. Gellir diwygio'r ddyletswydd hon er mwyn sicrhau y bydd ond yn dod i ben pan fydd awdurdodau wedi *cydymffurfio* â'r ddyletswydd ac mae 56 diwrnod wedi dod i ben.

b. **Gorfodi dyletswydd yr Awdurdodau Lleol i gymryd camau rhesymol**

Yn Neddf Cymru, bydd ond yn bosibl gwneud cais am adolygiad o'r camau rhesymol yn dilyn hysbysiad bod y ddyletswydd wedi dod i ben. Ond mae Deddf Lloegr - a ysgrifennwyd gyda budd profiad Cymru mewn golwg – yn galluogi unigolion i wneud cais am adolygiad o'r hyn a gofnodwyd fel eu camau rhesymol. Gallai'r newid hwn fod yn un hawdd i'w wneud.

a) **Methiant i gydweithredu**

- Mae posibilrwydd i gryfhau hyn mewn dwy ffordd:
    i. O ystyried Deddf Lloegr, sy'n defnyddio'r geiriau 'mae'n rhaid i ymgeisydd fod wedi gwrthod cydweithredu'n fwriadol ac yn afresymol.' I fod wedi methu cydweithredu, mae'n rhaid bod yr ymgeisydd wedi methu cymryd unrhyw rai o'r camau rhesymol a gofnodwyd yn eu cynllun tai.
    ii. O dan Ddeddf Lloegr, os oes gan yr ymgeisydd angen blaenoriaeth a bod y ddyletswydd yn dod i ben oherwydd methiant i gydweithredu, byddant yn parhau i dderbyn llety (er y bydd hyn am 6 mis yn hytrach na 12 mis). Yng Nghymru, nid oes mwy o ddyletswyddau yn ddyledus i'r ymgeisydd os yw wedi methu â chydweithredu.
    iii. Dewis arall yw diddymu'r ddyletswydd hon.

b) **Hysbysiadau dim bai chwe mis**

- O dan y rheoliadau yn y Ddeddf Rhentu Cartrefi, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2022, ni ellir cyflwyno hysbysiad dim bai o fewn chwe mis cyntaf tenantiaeth. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn datgan yn glir bod unigolyn ond yn cael ei ystyried fel unigolyn sydd wedi'u bygwth â digartrefedd os ydynt yn debygol o ddod yn ddigartref o fewn y 56 diwrnod nesaf.
- Mae newidiadau arfaethedig yn cynnwys:
    - Diwygio'r Ddeddf er mwyn i unigolyn gael ei ystyried fel unigolyn sydd wedi'u bygwth â digartrefedd ar ôl iddynt dderbyn hysbysiad.
    - Estyniad yn y Ddeddf, er mwyn sicrhau bod y dyletswyddau atal yn berthnasol, nid pan fydd bygythiad o ddigartrefedd ymhen 56 diwrnod, ond o fewn chwe mis.
    - Ystyrir y bydd peidio â gwneud unrhyw ddiwygiadau ac yna cyflwyno hysbysiad am 6 mis i unigolyn ond yn fygythiad am y ddau fis olaf (56 diwrnod) y cyfnod hwnnw, felly byddai pedwar mis heb unrhyw ddyletswydd. Nid yw hyn yn cyflawni nodau ymyrraeth gynnar.
    - A allai fod dyletswydd atal sy'n gymwys drwy gydol y chwe mis ond sy'n cryfhau yn y ddau fis olaf. Y risg gyda'r dull hwn yw nad oes llawer yn cael ei wneud am y pedwar mis cyntaf.

c) **Dyletswydd i ddarparu cymorth i helpu i gadw llety**

- Mae potensial i gynnwys darpariaeth i gynorthwyo ymgeiswyr i gadw llety yn y ddeddfwriaeth. Mae'r ddyletswydd hon yn neddfwriaeth yr Alban, ond nid yw'n glir pa mor effeithiol yw hyn yn ymarferol. Byddai cwestiwn ynghylch manylion y ddyletswydd benagored a sut y byddai'r ddyletswydd yn rhyngweithio â dyletswyddau cymorth eraill, er enghraifft, ynghylch iechyd meddwl. Byddai angen ystyried am ba hyd y byddai hynny'n parhau.

d) **Dyletswyddau i gyfeirio a chydweithredu**

- Gellir cynnwys dyletswyddau i gyfeirio a chydweithredu yn y ddeddfwriaeth, fel yn Lloegr.
- Gellid ymestyn y ddyletswydd hon i fwy o awdurdodau cyhoeddus nac yn Lloegr, er enghraifft y Swyddfa Gartref.

Dywedodd LD, er bod yr holl ddyletswyddau hyn yn bosibl, mae'r hyn a fyddai'n eu gwneud yn effeithiol yn seiliedig ar ddiwylliant, llywodraethu a chydweithrediad, yn hytrach nac ar y

ddeddfwriaeth ei hun.  Fodd bynnag, mae'r dyletswyddau hyn yn gosod y cyd-destun ar gyfer y diwylliant hwn.

*I'w drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol: Dyfodol y ddyletswydd rhyddhad pe byddai angen blaenoriaeth yn cael ei ddiddymu.*

4. **Trafodaeth ar ddiweddariad LD**

Diolchodd y panel i Liz am ei phapur cynhwysfawr ac am y trosolwg.

Codwyd y pwyntiau canlynol ar **ddyletswydd i gyfeirio**, er yr awgrymwyd bod y pwnc hwn yn faes i'w drafod mewn mwy o fanylder mewn cyfarfod yn y dyfodol:

- A ellir cael dyletswydd i awdurdodau lleol ddarparu llety pan fu methiant i gyfeirio?
- Mae mudwyr yn aml mewn llety clwm – a allai'r ddyletswydd i gyfeirio fod yn berthnasol i gyflogwyr hefyd?
- Sefydlu a all dyletswydd ar gyfer mudwyr gymryd amser.

Roedd aelodau'r panel yn cefnogi diddymu **methiant i gydweithredu** ar y cyfan, ond codwyd y pwyntiau canlynol:

- Codwyd y pwynt y gallai goblygiadau cydraddoldeb fod ynghlwm wrth hyn ac awgrymwyd y gallem edrych ar ba garfanau o bobl y disgrifiwyd eu bod wedi methu â chydweithredu ac ystyried a wnaed addasiadau rhesymol.
- Dywedodd aelodau'r panel eu bod o blaid diddymu'r is-gymal ar fethiant i gydweithredu, ond pe byddai'n aros, byddai angen prawf llymach o hyn a mwy o wybodaeth ynghylch ystyr cydweithredu. Mae gwrthod cydweithredu yn well na methiant i gydweithredu, ond mae diddymu hyn yn well na chadw'r ddau.

Cododd aelodau'r panel y pwyntiau canlynol ar **Gamau rhesymol:**

- Roedd aelodau'r panel wedi'u calonogi gan y modelau ar gyfer camau rhesymol a oedd yn galluogi adolygiad ar hyn o bryd, yn hytrach nag aros tan ddiwedd y ddyletswydd.
- A fyddai'n bosibl cael hawl i adolygu os nad yw'r awdurdod wedi gweithredu o gwbl nac wedi cynhyrchu Cynllun Tai Personol.

Mynegodd aelodau'r panel y safbwyntiau canlynol ynglŷn at **Atal**:

- Roedd aelod o'r panel yn awyddus i ystyried a fyddai peidio cael unrhyw derfyn amser o gwbl ar y ddyletswydd yn bosibl, er mwyn atal digartrefedd.
- Ymatebodd cynrychiolydd awdurdod lleol drwy ddweud, mewn byd delfrydol, byddem yn colli'r cyfyngiadau amser, mae eu hangen er mwyn helpu awdurdodau lleol i reoli adnoddau. Gyda llwyth achosion uchel, mae'n rhaid cyfeirio cymorth at y rhai sy'n wynebu digartrefedd o fewn dau fis.
- Sylwyd bod swyddogion yn delio ag atal a rhyddhad law yn llaw – a ellid symleiddio'r ddwy ddyletswydd hynny?
- Awgrymodd un aelod o'r panel y byddai angen mwy o weithwyr cymorth/amser i gyflawni rhai o'r opsiynau a amlinellwyd ym mhapur Liz ynghylch Cynlluniau Tai Personol.

**Pwyntiau cyffredinol:**

- Mae'r ddeddfwriaeth yn pennu'r disgwyliadau ar gyfer awdurdodau lleol, ond hefyd ar gyfer y ffordd mae Llywodraeth Cymru'n dosbarthu grant awdurdodau lleol – felly gall dyletswyddau statudol gwell helpu i ddiogelu cyllid.

- Ar hyn o bryd, y safon ofynnol o 56 diwrnod yw'r safon a ddefnyddir yn ymarferol yn gyffredinol – er gwaethaf canllawiau sy'n annog ymgysylltu cynharach. Felly, mae dyhead i ymgorffori safbwynt mwy uchelgeisiol ar wyneb y ddeddfwriaeth.
- Gallai cynnwys mwy o "hanfodion" yn y canllaw fod yn ddefnyddiol hefyd.
- Roedd gan CC ddiddordeb yn natganiad SF ei bod yn ymddangos bod dyletswydd 2013 yr Alban, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cymorth tai, yn helpu i newid diwylliant.
- Ystyried sut, os caiff ei fabwysiadu, y bydd yr hawl i dai digonol yn newid y trothwy o gamau rhesymol.
- Mae'r sefyllfa hon yn anos mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol oherwydd yr anallu i ddefnyddio'r sector rhentu preifat oherwydd cyfyngiadau ar gyllid Awdurdodau Tai Lleol.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Jordan Brewer | Anfon neges e-bost at aelodau'r panel yn eu gwahodd i roi sylwadau ar y pwnc o droi allan, cyn y cyfarfod nesaf | Ar unwaith |
| Clarissa | Ystyried a ddylid cysylltu â chyfoedion yn yr Alban i drafod dyletswydd 2013 ynghylch cymorth a'r newid diwylliant y mae hyn wedi helpu i'w greu. | |

5. **Papur ymgysylltu**

Rhoddodd DT ddiweddariad i'r panel ar y gwaith mae Crisis yn ei gynllunio i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyflwynwyd papur sy'n arwain ymlaen o waith KT a HF. Mae tair agwedda allweddol i hyn:

- Tudalen we fydd yn rhoi manylion am waith y panel a chyfle i gyflwyno pwyntiau i'r panel eu hystyried
- Rhestr o ddigwyddiadau rhanddeiliaid i'w cynnal ochr yn ochr â chyfarfodydd y panel ac ymgysylltu â sefydliadau perthnasol ar y pynciau arbenigol a nodwyd.
- Grŵp cyfeirio ar gyfer awdurdodau lleol.

Ymhlith ymatebion y panel roedd:

- Pwysigrwydd ymgysylltu'n eang gydag ALl o ystyried yr amrywiadau o ran dulliau gweithredu a phwysau ar draws y 22 ALl. Trafodwyd y byddai datblygu grŵp cyfeirio mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr ALl yn rhan bwysig o fynd i'r afael â hyn.
- Yr angen i gysylltu â rhwydweithiau presennol o Gymdeithasau Tai.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Jordan Brewer / Abi Renshaw / Debbie Thomas | Crisis i rannu testun y dudalen we ddrafft gyda'r panel ar gyfer tudalen Panel Adolygu Arbenigol Crisis. | Dechrau Tachwedd |
| Pawb | Aelodau'r panel i roi gwybod i Crisis os ydynt yn dymuno rhoi eu hunain ymlaen fel arweinydd panel ar gyfer digwyddiad thema/rhanddeiliaid penodol a rhoi adborth ar unrhyw sylwadau ar y papur ymgysylltu. | 15.11.2022<br>1 wythnos cyn y cyfarfod nesaf |
| Jordan Brewer / Debbie Thomas | • Dosbarthu rhestr o randdeiliaid i'w gwahodd fesul sesiwn y gall aelodau'r panel ychwanegu ati. | 15.11.2022<br>1 wythnos cyn y cyfarfod nesaf |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cynnwys adborth y panel yn y papur ymgysylltu, gan gynnwys sianelau y gall aelodau'r panel eu defnyddio yn eu rhwydweithiau, er enghraifft Cymdeithasau Tai.<br>• Cydweithio â Jim, Angela ac Ashleigh ar gyfer grŵp cyfeirio Awdurdodau Lleol.<br>• Dosbarthu cwestiynau arfaethedig i'w holi yn sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid yr Awdurdodau Lleol ar 18 Tachwedd. Estynnwyd gwahoddiad i'r panel roi adborth ar y cwestiynau. | |

6. **Trafodaeth ar newidiadau posibl i'r tri phrawf cyfreithiol o angen blaenoriaeth, bwriad a chysylltiad lleol**

Darparodd KD adborth ar waith Arbenigwyr drwy Brofiad ym mhob maes trafod.

a. **Angen blaenoriaeth**

Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i ddiddymu a chydnabuwyd ffordd ymlaen. Fodd bynnag:

- Pwysleisiwyd yn gadarn y byddai angen buddsoddiad sylweddol ar Awdurdodau Lleol mewn adnoddau a chyflenwad tai er mwyn cyflawni unrhyw ddyletswyddau ychwanegol. Dylai neges allweddol gan y panel fod ynghylch yr achos dros fod angen rhagor o adnoddau.
- Dangosodd y profiad Covid y gallem weithredu'n llwyddiannus heb gael y prawf ar waith, a bod yn ymwybodol o'i bwysigrwydd a'r gwahaniaeth a wnaeth. Fodd bynnag, yn y tymor hwy, byddai angen mwy o staff i gyflawni hyn yn ogystal â buddsoddiad mewn llety dros dro mwy *addas*.
- Bydd staff rheng flaen ALl yn falch o gael mwy o hyblygrwydd i helpu pobl yn hytrach na chael eu gorfodi i'w troi ymaith.
- Mae angen pwyslais ar adnoddau tymor hwy hefyd (e.e. gan gysylltu ag ailgartrefu cyflym a'r mathau o dai sydd eu hangen o dan yr ymrwymiad i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol) er mwyn osgoi'r sefyllfa lle mae pobl yn aros mewn llety dros dro am gyfnodau hir o amser.
- Mae angen dysgu gan yr Alban a phwysleisio dulliau atal er mwyn osgoi'r sefyllfa lle mae nifer fawr o bobl mewn llety dros dro wrth ddiddymu angen blaenoriaeth. Mae'r Alban wedi cyflwyno dull gweithredu fesul cam, a oes angen hyn ar gyfer Cymru o ystyried y dull gweithredu 'pawb i mewn' parhaus sy'n parhau drwy'r ddeddfwriaeth dros dro?
- Mae angen newid diwylliant, oherwydd nid yw'r profion yn cael eu hysbysu gan drawma. Dylem osgoi sefyllfa lle mae'n rhaid i bobl 'gyflawni'r amodau i gael help'.

Safbwyntiau arbenigwyr drwy brofiad a Fforymau Darparwyr Rhanbarthol:

- Dywedodd nifer fawr eu bod eisiau diddymu'r prawf ac na ddylai unrhyw un gael eu gadael ar ôl.
- Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y diffyg tai a'r pwysau ar y farchnad ar hyn o bryd, nid yw pobl sy'n gymwys ar hyn o bryd yn gweld hyn yn cael ei drawsnewid yn dai. Mae mynediad at lety dros dro o dan bwysau aruthrol ac mae hyn yn arwain at flaenoriaethau o ran angen blaenoriaeth.
- Ystyriwyd bod angen cyrraedd pwynt o argyfwng er mwyn cyflawni'r amodau.
- Ystyriwyd nad yw'r broses o wneud cais yn deg nac yn gyson ar draws Cymru. Y cartref cywir yn y lle cywir, er mwyn osgoi digartrefedd dro ar ôl tro.
- Roedd canran o'r farn pe byddai'r angen blaenoriaeth yn aros, y dylid ei newid er budd pobl ifanc, goroeswyr cam-drin domestig a'r rhai sy'n gadael y carchar. Mae pryderon ar gyfer y

rhai sy'n gadael y carchar yn dilyn y newid i Ddeddf 2014, oherwydd roedd angen iddynt gael eu hystyried yn agored i niwed mewn cysylltiad â'u hamser yn y carchar i fod ag angen blaenoriaeth.

- Roedd y Fforwm Darparwyr Rhanbarthol o blaid diddymu yn gyffredinol, ond ei bod yn hollbwysig sicrhau'r adnoddau cywir a'r angen am ddull gweithredu wedi'i hysbysu gan drawma. Gall dehongliad unigol o sefyllfa unigolyn olygu bod pobl yn llithro drwy'r rhwyd.

b. **Bwriad**

Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i ddiddymu bwriad.

- Mae'r prawf bwriad yn cymell ffordd o weithio nad yw wedi'i hysbysu gan drawma. Mae'n cymell barn ynghylch pwy sy'n haeddu neu nad ydynt yn haeddu cymorth ac nid yw'n ystyried anghenion cymorth heb eu cyflawni.
- Nodwyd er mai 'anaml iawn y defnyddir' bwriad, mae'n cael ei gynnwys mewn sgyrsiau cynharach gyda phobl a allai fod ar fin dod yn ddigartref fel dull o borthgadw.
- Yn aml iawn pan ganfyddir fod pobl yn 'ddigartref yn fwriadol' mae angen cymorth amlwg heb ei gyflawni.
- Bydd pobl yn 'dod drwy'r system eto' gyda digartrefedd yn cael ei ailadrodd os canfyddir bwriad ac nad ydynt wedi derbyn cymorth ar y pwynt hwn.
- Mae bwriad yn nodwedd o system hynafol. Cynlluniwyd y ddeddfwriaeth yn wreiddiol at ddiben gwahanol, er mwyn atal y rhai a oedd yn chwarae'r system i gael mynediad at dai cymdeithasol yn fwy rhwydd.
- Croesawyd y defnydd o asesiadau o angen a chefnogwyd y modelau tai ar gyfer y rhai sy'n cael anhawster gyda chynigion prif ffrwd.
- Mae pryder y bydd rhai unigolion yn 'gwaethygu eu sefyllfa'n fwriadol' er mwyn cael llety neu gamarwain yr awdurdod o'u sefyllfa wirioneddol (nifer fach iawn o achosion ond mae rhai yn bodoli). Gyda'r galw uchel iawn am dai cymdeithasol, mae'n bwysig ystyried hyn. Awgrymodd SF bod hyn yn ffurfio rhan o'r drafodaeth ar ddyraniadau. Nodwyd bod adran 97 Deddf Tai (Cymru) 2014 eisoes yn cynnwys cosbau troseddol perthnasol.

Safbwynt arbenigwyr drwy brofiad a Fforymau Darparwyr Rhanbarthol:

- Mae ychydig dros hanner ymatebwyr yr arolwg o'r farn y dylai barhau, ond yng nghorff eu hatebion roedd dealltwriaeth o'r angen am fwy o hyblygrwydd oherwydd y mathau o bwysau a wynebir gan bobl; anghenion cymorth, pwysau ariannol, materion cymdeithasol ac effeithiau hyn.
- Roedd unigolion yn teimlo eu bod "wedi'u diystyru" ond nid oeddent yn gwybod pam.
- Roedd y Fforwm Darparwyr Rhanbarthol o blaid diddymu bwriad oherwydd nid yw'n cefnogi dull gweithredu wedi'i hysbysu gan drawma. Anghenion cymorth heb eu cyflawni yw'r darlun mwy.

c. **Cysylltiad lleol**

Nid oes ffordd glir ymlaen yn y tymor byr, gyda safbwyntiau cymysg ynghylch diddymu cysylltiad lleol, ond roedd llawer o ddatrysiadau ymarferol i'w trafod. Pe byddai cysylltiad lleol yn cael ei ddiddymu, pwysleisiodd aelodau'r panel bod angen gweithredu hyn mewn ffordd gyson ar draws pob Awdurdod Lleol. Pe byddai'n cael ei gadw, mae angen iddo fod yn fwy penodol ac ni all barhau fel y mae, er mwyn sicrhau ei fod wedi'i hysbysu gan drawma.

Dywedodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod consensws clir ymhlith awdurdodau lleol ynghylch cadw cysylltiad lleol ac nid oedd y cynrychiolydd wedi'i argyhoeddi bod opsiynau amgen sy'n cael eu defnyddio mewn lleoliadau eraill yn effeithiol.

Nodwyd bod deddfwriaeth yr Alban yn galluogi i gysylltiad lleol gael ei ail-gymhwyso mewn ardaloedd lle mae tystiolaeth o alw ychwanegol 'nad yw'n lleol' a holwyd a allai hyn fod y ffordd ymlaen.

Roedd Awdurdodau Lleol o'r farn bod yna ystod eang o faterion pwysau tai i'w hystyried cyn colli cysylltiad lleol. Cafwyd cydnabyddiaeth hefyd o sut y gallai cysylltiad lleol amrywio mewn gwahanol awdurdodau gwledig/trefol.

Awgrymodd cynrychiolydd o awdurdod lleol y gellir ychwanegu grwpiau eraill o bobl at y rhestr bresennol (sy'n cynnwys y rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig) o grwpiau sydd wedi'u heithrio o'r prawf cysylltiad lleol.

Trafododd un arall a yw'r cysylltiad lleol yn gwaethygu'r cysylltiad rhwng awdurdodau lleol yn hytrach na'i helpu.

Os cedwir y cysylltiad lleol, mae angen iddo fod yn wahanol oherwydd mae'n achosi niwed i bobl, os na chaiff ei ddiddymu yna mae angen iddo fod yn fwy penodol.

Croesawodd aelod arall yr enghraifft o'r ffordd y mae gwledydd eraill yn mynd i'r afael â cholli cysylltiad lleol a thrin a thrafod adnoddau, fel yr amlinellir yn y papur, ond holwyd ynghylch unrhyw ganlyniadau anfwriadol, ynghylch lefelau uwch o fiwrocratiaeth.

Ystyriwyd y ffydd y mae cysylltiad lleol yn effeithio ar fudwyr ac a fyddai'n bosibl ystyried cyllid i helpu'r grŵp hwn, yng nghyd-destun yr anawsterau cyllid hyn, ac a fyddai'n bosibl ystyried grantiau fel ffordd ymlaen ar gyfer y grŵp hwn.

O ran cydraddoldeb, gallai colli cysylltiad lleol olygu y bydd angen i ardaloedd ystyried ehangu'r stoc tai – e.e. o ran tai wedi'u haddasu.

Pe byddai cysylltiad lleol yn parhau, a ddylai gwasanaethau ailgysylltu gael eu mandadu yn yr awdurdodau lleol hynny â'r mewnlif net mwyaf?

Mae gwahaniaeth rhwng ystyr cysylltiad lleol yn gyfreithiol ac yn ymarferol o ran a) dyletswyddau digartrefedd, a b) dyraniadau tai cymdeithasol. Mae rhywfaint o'r drafodaeth wedi bod yn fwy o safbwynt dyrannu.

Mae tystiolaeth nad yw awdurdodau lleol yn defnyddio'r gyfraith cysylltiad lleol yn gywir – e.e., ei defnyddio ar gyfer y rhai sy'n ffoi rhag camdriniaeth. Defnyddiwyd cysylltiad lleol i borthgadw er mwyn atal ceisiadau, sy'n anghyfreithlon oherwydd ni ddylid ei ystyried nes yn ddiweddarach yn y broses. Nid yw llawer o'r pryderon ynghylch cysylltiad lleol yn ymwneud â'r gyfraith ei hun, ond ynghylch cymhwysiad anghyfreithlon.

Mae diffyg data ar symudiad pobl rhwng awdurdodau felly nid ydym yn deall natur y broblem yn llwyr.

Mae pryder y bydd cadw cysylltiad lleol yn cadw pobl ar y strydoedd oherwydd gallwn weld y bydd pobl yn aros yn yr ardaloedd y byddant yn symud iddynt, fel y dangosir yn y papur.

Nodwyd y dylem fod yn ystyriol o'r ffaith nad yw'r ddyletswydd rhyddhad yn ystyried sefyllfaoedd lleol os ydym yn ystyried ei ddiddymu.

Safbwynt arbenigwyr drwy brofiad a'r Fforymau Darparwyr Rhanbarthol:

- Dryswch rhwng dyraniadau a'r ddyletswydd ddigartrefedd. Ymateb cymysg i ddiddymu cysylltiad lleol.
- Roedd y mwyafrif helaeth o'r sylwadau yn ymwneud â'r amgylchiadau anodd iawn y mae pobl yn canfod eu hunain ynddynt a pham na fyddai o fudd iddynt ddychwelyd i'w hawdurdod cartref.
- Efallai bod rhesymau pam fod pobl yn anniogel yn eu hardal leol a all fod yn anodd i rai eu derbyn yn wleidyddol, e.e. ffoi oherwydd caethiwed neu gysylltiadau â'r "dorf anghywir." Weithiau roedd pobl wedi ffoi o ardal am resymau nad oeddent yn teimlo eu bod yn gallu adrodd i'r heddlu ac roedd hyn yn gweithredu yn eu herbyn wrth gyflwyno i awdurdod lleol arall.
- Os cedwir y cysylltiad lleol, mae angen i hyn gael ei hysbysu mwy gan drawma a bod yn hyblyg i ystyried y sefyllfaoedd hyn.
- A ellir edrych ar hyn yn rhanbarthol, ac nid dim ond o fewn Awdurdodau Lleol, a chefnogi adnoddau a rennir.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Liz Davies | Ardaloedd i ddarparu cyngor cyfreithiol arbenigol ar y cwestiynau allweddol a godwyd: | 15.11.2022<br>1 wythnos cyn y cyfarfod nesaf |
| Pete Mackie | Rhannu dadansoddiad doethurol ar gamau rhesymol gyda Matt, Suzanne a Liz i esbonio effaith yr hawl i dai digonol. | Y cyfarfod nesaf, 22.11.2022 |
| Jordan Brewer | Llunio awgrymiadau ymarferol ar sut i liniaru cysylltiad lleol. | Cyn cyfarfod Ionawr |

7. **Unrhyw Fater Arall**

Cynhelir y drafodaeth ar droi allan yn y cyfarfod nesaf.

Cytunodd y panel i estyn y cyfarfodydd o 2 awr i 3 awr er mwyn hwyluso trafodaeth lawnach.

Cafwyd crynodeb gan DT a JD, aelodau Crisis, ar y gwaith arfaethedig:

- Mae cwestiynau rhanddeiliaid mis Tachwedd yn cael eu cynllunio. Bydd tîm Crisis yn defnyddio hyn i geisio barn ar rai o'r pwyntiau allweddol ar gyfer y cyfarfod nesaf. Bydd y cwestiynau pwysig yn cael eu bwydo i mewn i'r cyfarfod nesaf. I'w dosbarthu i'r panel roi sylwadau arnynt.
- Y testun ar gyfer y dudalen we ar waith y panel i'w ddosbarthu cyn hir i'w gymeradwyo.
- Cyhoeddir y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd 2023 cyn hir. Bydd cyfarfod Ionawr yn ddigwyddiad diwrnod cyfan, mewn person.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Zoom ddydd Mawrth 22 Tachwedd 2022.**

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Abi Renshaw | Gweithio gydag aelodau'r panel i sicrhau 3 awr ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 22 Tachwedd. Cynnig a sicrhau dyddiadau ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol yn 2023. | Ar unwaith |